**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales

6 Gorffennaf 2017

Annwyl David

Diolch am anfon copi ataf o adroddiad eich Pwyllgor sy'n nodi'r goblygiadau posibl i Gymru yn sgil Papur Gwyn Llywodraeth flaenorol y DU ar y Bil Diddymu Mawr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi eich dadansoddiad a'ch casgliadau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi agenda o faterion sy'n flaenllaw yn ein meddyliau wrth inni ymdrin â'r ddeddfwriaeth eithriadol arwyddocaol hon. Yn ddiweddarach y mis yma byddwn yn llunio ymateb i'r Pwyllgor ar y Bil Diddymu cyhoeddedig - bydd y dadansoddiad a'r casgliadau yn Adroddiad y Pwyllgor o gymorth inni yn hyn o beth.

Rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd y Bil arfaethedig yn tanseilio'r setliad datganoli a'r pwerau y pleidleisiodd pobl Cymru drostynt. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r Pwyllgor ar ôl i'r Bil gael ei gyhoeddi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.